

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

1af o Ebrill 2016 i'r 31ain o Fawrth 2017

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Datganiad Cydraddoldeb

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn parhau i adeiladu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth y gwnawn - o greu gweithle sy'n rhoi gwerth i amrywiaeth gweithwyr, i ddarparu gwasanaethau sy'n ganolog i'r bobl i holl gymunedau De Cymru. Taith barhaol yw hon yr ydym yn ymrwymedig i'w pharhau.



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'H Jakeway'.

Huw
Jakeway Prif
Swyddog Tân



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sally Chapman'.

Sally Chapman
DBS
Gwasanaethau
Cyllid a
Chorfforaethol



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Tudor Davies'.

Cyng. Tudor
Davies
Cadeirydd
Awdurdod TADC

I weld sut yr ydym yn gweithio i wneud cydraddoldeb yn fyw yn y Gwasanaeth Tân, a fyddoch cystal â chymryd cipolwg ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Lleihau Risg, a'n Cynllun Gwella. Gellir canfod bob un o'r rhain, ynghyd â gwybodaeth eraill, ar ein gwefan: decymru-tan.gov.uk

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau amgen ar gais gan y cyswllt a ddarperir ar y dudalen gefn.

Cynnwys

	Tudalen(nau)
Cyflwyniad	4
Pwy ydym ni?	5
Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd	6
Dyletswydd Gyffredinol	7, 8
 Y Dyletswyddau Penodol Cymreig:	
Rheoliadau 3 a 4	8
Rheoliadau 5 a 6	9
Rheoliadau 7 a 8	10
Rheoleiddiad 9	11
Rheoleiddiad 10	12
Rheoliadau 11 a 12	13
Rheoliadau 13 a 14	13
Rheoleiddiad 18	14
 Atodiadau:	
Data Gwasanaeth	15
Data Staff – Cyffredinol	16
Data Staff – Pobl sy'n Gadael	17
Gadawyd yn Wag.....	18
Data Staff- Rhyw/Gradd: Corfforaethol	
Data Staff- Rhyw/Rôl: Gwisg	20
Data Recriwtio: Corfforaethol	22
Data Recriwtio: Llawn-amser	23
Data Recriwtio: Yn ôl y Galw/Ar Alwad.....	24
Geirfa	25

Cyflwyniad


Newidiodd Cydraddoldeb yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn fwyaf diweddar wrth amnewid dros 100 darn o ddeddfwriaeth gydag un darn o gyfraith (Deddf Cydraddoldeb 2010), a'r Dyletswyddau Penodol Cymreig.

Bwriada'r Adroddiad Blynyddol hwn gwrdd â Rheoleiddiad 14 o'r Dyletswyddau Penodol Cymreig a pharha o'r Adroddiad Blynyddol diwethaf, a dylid ei ddarllen ynghyd ag ef i dderbyn y darlun cyfan ([LINK](#))

Pwy Ydym Ni?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn cwmpasu 10 Awdurdod Unedol (AU). Mae 24 o aelodau etholedig yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a enwebwyd o'r 10 AU. Un o'r ardaloedd gwasanaeth tân ac achub fwyaf yn y DU ydyw ac mae'n cynnwys ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol.

Ardal: 2,700 km²
Poblogaeth: 1.49 miliwn
Anheddau: 662,000
Eiddo Annomestig: 46,000
(Ffynhonnell: Ystadegau Cymru a www.decymru-tan.gov.uk)



Yn 2016-17, fe ddeliom â:

- **35,381** o alwadau brys.
- **17,315** o ddigwyddiadau.
- **5,798** o danau, o blith y rhain roedd **4,054** yn fwriadol.
- **1,179** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (GTFf).

(Ffynhonnell: System Cofnodi Digwyddiadau (SCD) a Datganiad Ystadegau Gweithredol 2016-17 (Llywodraeth Cymru))

Fe wnaethom y canlynol:

- Rhyddhawyd **177** o bobl gennym a oedd yn gaeth mewn cerbydau.
- Ni ddanfonwyd peiriannau i **104** o alwadau, yn dilyn eu hadnabod fel rhai maleisus.
- Mynychwyd **302** o alwadau wedi methu a'u hadnabod fel rhai maleisus.
- Cwblhawyd **16,387** o archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref.
- Cynhaliwyd ymgysylltiadau wyneb yn wyneb â **47,408** o Blant a Phobl Ifanc drwy law digwyddiadau diogelwch cymunedol ac ymweliadau ag ysgolion.

Ffynhonnell - Datganiadau Ystadegol Blynyddol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Diogelwch Tân Cymunedol 2016-17)

Mae gennym **47** o Orsafoedd Tân a fyddinodd beiriannau tân a cherbydau wrth gefn ill dau.

Mae gennym gerbydau arbenigol eraill i ddelio ag ystod eang o argyfyngau (megis achubiadau anifeiliaid mawr)

Rheolir pob galwad frys gan Reoli Tân a leolir yn y Cyd Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, Pen-y-bont ar Ogwr. Lleolir ein pencadlys yn Llantrisant.

Ein Gweledigaeth

I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg.

Mae ein Datganiad Gweledigaeth yn disgrifio dyfodol delfrydol ac yn uno GTADC ynghylch pwrpas cyffredin.



Ein Cenhadaeth

Byddwn yn cyflawni ein Gweledigaeth wrth:

- Wasanaethu anghenion ein cymunedau
- Weithio ag eraill
- Wynebu heriau drwy arloesedd a gwelliant
- Leihau Risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
- Lwyddo i wneud De Cymru 'n ddiogelach

Ein Gwerthoedd

Diffinia ein GWERTHOEDD yr hyn yr ydym yn credu ynddynt — ein rheolau craidd ydynt. Unwaith y'u diffinnir, dylai'r gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni gael eu hadlewyrchu ym mhopeth y gwnawn.

- Yn ofalgar
- Yn ymroddgar
- Yn ddisgybledig
- Yn rymus
- Yn broffesiynol
- Yn hydwyth
- Yn barchus
- Yn ddibynadwy

Pryd bynnag y dewch i gysylltiad â'r Gwasanaeth, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn amlwg ar bob adeg.

Dyletswydd Gyffredinol

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol sy'n anelu i sicrhau nad ydy pobl sydd â Nodweddion Gwarchoddedig yn cael eu gwahardd, y gwahaniaethir yn eu herbyn, neu fel arall y cânt eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw un arall, o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig; a gynhwysir gan dri maes hanfodol:

- ***Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf***
- ***Dyrchafu cydraddoldeb cyfle rhwng personau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol â phersonau nad sy'n rhannu hyn***
- ***Maethu perthnasau da ymysg personau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol â phersonau nad sy'n rhannu hyn***

Cefnogir y Ddyletswydd Gyffredinol ymhellach gan y Dyletswyddau Penodol Cymreig (mae'r Ddeddf Hawliau Dynol hefyd yn cefnogi gwaith cydraddoldeb, ond ni chynhwysir hyn o fewn yr Adroddiad).

Mae rhai o'r ffyrdd y buom yn gweithio tuag at y Ddyletswydd Gyffredinol yn cynnwys:

- Cynhaliwyd diwrnodau gweithredu cadarnhaol fel gall unrhyw un o grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol gael cyfle i ddysgu am Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
- Lansiodd ymgyrch "Gyda'n gilydd" y Gwasanaeth fel rhan o'n strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'u grwpiau cymunedol allweddol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn gyffredol o fewn ein cronfa o weithwyr.
- Datblygwyd rhwydwaith o lysgenhadon Rhuban Gwyn â'r Pencadlys a Gorsafoedd i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned drwy law'r cyfryngau.
- Gweithiodd â gwahanol gredoau i gynyddu diogelwch tân/diogelwch coginio o fewn y cartref, yn enwedig ynghylch gwyliau crefyddol.
- Mynychwyd digwyddiad Race for Life Caerdydd
- Cefnogwyd Wythnos Ymwybyddiaeth Byddarwch
- Cefnogwyd Diwrnod Pobl Oedrannus
- Cyfranogwyd mewn Digwyddiadau Rhwydweithio Wythnos Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru
- Mynychwyd cynhadledd Stonewall yn y Gweithle / Cynrychiolwyd yn nigwyddiad Pride Caerdydd
- Cefnogwyd yr ymgyrch #ReachOut a gynhaliwyd gan Amser i Newid Cymru Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Y Dyletswyddau Penodol Cymreig

Dengys yr adran hon beth a wnaethpwyd gennym, a beth yr ydym yn bwriadu gwneud, mewn perthynas â'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, er mwyn cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol fel y soniwyd amdanynt uchod.

Rheoleiddiad 3: Amcanion Cydraddoldeb

Dylid prif ffrydio amcanion cydraddoldeb fel y gall pob gwasanaeth ac adran gyfrannu at welliannau cydraddoldeb a rheoli eu hymrwymadau cydraddoldeb fel rhan annatod o'u gwelliannau cyffredinol a'u hymrwymadau gwasanaeth i gwsmeriaid.

Rheoleiddiad 4: Paratoi ac adolygu amcanion cydraddoldeb

Mae gan Awdurdodau ddyletswydd i gasglu ystod o wybodaeth cydraddoldeb i gyfrannu at y gronfa dystiolaeth hon.

Beth a wnaethom

- Datblygwyd ystod o ffyrdd lle bydd systemau casglu gwybodaeth, i sicrhau bydd pob data perthnasol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig, yn cael ei gipio a'i fonitro fel bo'n briodol, e.e. cynigir holiadur C ac A i'r aelwyd ar bob Ymweliad Cartref a ymgwymerwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
- Parhawyd i ddatblygu cydberthnasau â sefydliadau eraill i werthuso ac addasu ein hamcanion cydraddoldeb, a'r ffyrdd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau fel bo'n briodol.
- Crëwyd holiadur C ac A i atodi i bob templed Ymgyrchoedd ffurflen M38 a chynigir hwy i bob grŵp yr ymgysylltwyd â hwy.
- Ychwanegwyd cwestiynau ategol ynghylch yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo dwyieithrwydd ac adeiladu rhesymoli i wella darpariaeth gwasanaethau.
- Casglwyd amrediad o wybodaeth cydraddoldeb yn ystod archwiliadau diogelwch tân o eiddo busnes ac yn ystod Digwyddiadau Ymgysylltu â Busnesau.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Parhau i gynnal ein canolbwynt blynyddol ar amcanion cydraddoldeb wrth ymgorffori'r fath amcanion o fewn cynlluniau busnes Adrannol.
- Parhau i fonitro ac adolygu'r wybodaeth a gesglir gennym i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y Gwasanaeth a chymunedau De Cymru a hefyd anghenion deddfwriaethol.
- Cyfannu gwybodaeth cydraddoldeb i dechnoleg newydd i gefnogi a gwella lleihau risg a chaniatáu i ni flaenoriaethu gweithgareddau a defnyddio ein hadnoddu'n fwy effeithiol.
- I wahanu'r data a gasglwyd ar ymweliadau a chreu ffurflen "i'w adael" ac amlen gyfrinachol i hyrwyddo mwy o ymatebion a chynyddu anhysbysrwydd.
- Datblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth Tân 2018-21 mewnol

Rheoleiddiad 5: Darpariaethau Ymgysylltu

Fel rhan o gasglu gwybodaeth berthnasol, bydd angen i Awdurdod ymgysylltu â phobl briodol wrth asesu'i waith mewn perthynas â chwrdd â thri nod y ddyletswydd gyffredinol

Beth a wnaethom

- Hyrwyddwyd ein gwasanaethau drwy law gwefannau cymdeithasol i gymunedau a dargedwyd
- Parhawyd i weithio'n agos â Stonewall Cymru i ddarparu hyfforddiant i'n Rheolwyr Goruchwylol a Chanol ar ragfarn ddarwybod,
- Hwyluswyd diwrnodau gweithredu cadarnhaol yn benodol i bobl o fewn ein gwasanaeth o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Adeiladwyd ar ein partneriaethau gweithredol â grwpiau cymunedol i adnabod a chwrdd â'u hanghenion
- Parhawyd i liflinio'r fethodoleg o gaffael gwybodaeth cydraddoldeb drwy law gwasanaethau rhagweithiol, fel Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref, a gweithgareddau ymgysylltu i randdeiliaid er mwyn sicrhau bydd y data a gaffaelir gennym yn arwyddocaol ac yn ein cynorthwyo â'n gweithgareddau cynllunio lleihau risg i'r dyfodol.
- Dyrchafwyd mecanweithiau casglu ac adrodd data parthed Nodweddion Gwarchodedig i holl ymgysylltiadau cymunedol a gweithgareddau ataliol sy'n ymwneud â'r gymuned.
- Mynychwyd nifer o ddigwyddiadau fel Gŵyl Pride Caerdydd, Diwrnod Pobl Oedrannus a Gŵyl Grangetown.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Parhau i liflinio ein dulliau casglu data er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r grwpiau cywir gyda'n gweithgareddau lleihau risg.
- Ceisio sefydlu rhwydweithiau staff ychwanegol, e.e. y Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb, fydd yn galluogi nifer ehangach o weithwyr i ddylanwadu ar bolisïau'r Gwasanaeth.

Rheoleiddiad 6: Hygyrchedd gwybodaeth a gyhoeddwyd

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau y cyhoeddir unrhyw ddogfen neu wybodaeth i gwrdd â'i ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol neu benodol mewn ffurf sy'n gyrchadwy i bobl o grwpiau gwarchoddedig

Beth a wnaethom

- Sicrhawyd y cynhyrchwyd unrhyw wybodaeth, gyngor neu ddogfen a gyhoeddwyd yn allanol mewn fformat dwyieithog.
- Cynhaliwyd Asesiadau Risg Cydraddoldeb dogfennau cyhoeddedig.
- Parhawyd i fynychu fforymau lleol, e.e. grwpiau D a LI E, Amser i Newid Cymru ac ati i fonitro p'un ai ydy'r wybodaeth a ddarperir gennym yn cwrdd â'u hanghenion. Galluogodd hyn i ni wneud diwygiadau yn ôl y gofyn.
- Cynyddwyd ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hysbysebu ein mynychiad mewn digwyddiadau fel Gŵyl Pride Caerdydd a'n cefnogaeth i ymgyrchoedd fel y Rhuban Gwyn.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Parhau i adnabod gwelliannau i'r ffyrdd rydym yn cyfathrebu'n effeithiol â'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu wrth ymgysylltu'n rhagweithiol a chynhwysol.

Rheoleiddiad 7: Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gyffredinol

Rhaid i awdurdod rhoi trefniadau priodol mewn lle i sicrhau ei fod yn adnabod y wybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant, ac yn adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol nad sydd yn ei feddiant.

Beth a wnaethom

- Cynigir holiadur C ac A i'r aelwyd ar bob Ymweliad Cartref.
- Crewyd holiadur C ac A i atodi i bob templed Ymgyrchoedd ffurflen M38 a chynigir hwy i bob grŵp yr ymgysylltwyd â hwy.
- Ychwanegwyd cwestiynau ategol ynghylch yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo dwyieithrwydd ac adeiladu rhesymoli i wella darpariaeth gwasanaethau.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Adnabod ffyrdd arloesol o gasglu gwybodaeth berthnasol i gefnogi lleihau risg o fewn cymunedau De Cymru.
- Sicrhau gall y System Rheoli Gwybodaeth Busnes (SRhGB) newydd gipio data a gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol

- Datblygu pecyn 'pawb yn bwysig', sy'n cynnwys holiadur anhysbys ynghyd ag amlen rhadbot, a chyfannu darpariaeth y pecyn a phob math o ymweliad
- Gweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i adnabod ffyrdd newydd o gasglu gwybodaeth, bylchau a thueddiadau

Rheoleiddiad 8: Effaith a monitro polisiau ac arferion

**Mae angen cwblhau asesiadau pan gaiff polisi neu arfer ei gynnig neu ei adolygu
Bydd hwn yn cynnwys cynllunio busnes, cynigion arbedion effeithlonrwydd ac ailstrwythuron staff.**

Beth a wnaethom

- Ail gynllunio'r ffurflen a chyfarwyddyd Asesu Risg Cydraddoldeb yn llwyr i sicrhau ei fod yn fwy pwrpasol.
- Cynnwys nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Asesiad Risg Cydraddoldeb

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Cynyddu maint yr Asesiadau Risg Cydraddoldeb a gynhaliwyd mewn sesiynau creu syniadau/prosiectau
- Adeiladu adolygiad blynyddol o arfer dda a heriau thematig ar lefel uwch-reolaeth a defnyddio'r canlyniadau i wella'r broses.

Rheoleiddiad 9: Casglu ac adrodd gwybodaeth cyflogaeth

Cynhwysa hyn ddata ar recriwtio a dargadwedd, dyrchafu, cyfleoedd hyfforddi a chamau cwyno a diarddel.

Beth a wnaethom

- Datblygwyd system AD newydd y Gwasanaeth (Core) sy'n caniatáu staff i hunan-reoli eu gwybodaeth cydraddoldeb
- Datblygwyd "Ffurflen Ymadael" anhysbys yn caniatáu staff sy'n gadael y Gwasanaeth i ehangu ar eu rhesymau dros adael.
- Prynu pecyn e-ddysgu Rhagfarn Anymwybodol
- Adolygwyd lefelau o wybodaeth cydraddoldeb gorffenedig

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Hyrwyddo hunan-reolaeth a diweddarau manylion personol rheolaidd

Data Cwynion:

- Parthed cyfnod yr adroddiad hwn, cofnodwyd pedair achos o gwyno gan y Tîm Datrys, tri gwryw ac un fenyw, pob un yn ymwneud â gweithdrefnau sefydliadol.
- Mae'r Gwasanaeth yn mireinio ei fonitro i gipio data sy'n berthnasol i gydraddoldeb a all fod yn gysylltiedig â Chwynion yn well.

Rheoleiddiad 10: Hyfforddi Staff

Mae'n ofynnol i Awdurdodau hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg gweithwyr a rhaid sicrhau y defnyddir gweithdrefnau asesu perfformiad, megis gwerthusiadau personol neu adolygiadau datblygu personol i adnabod a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi.

Beth a wnaethom

- Cefnogwyd staff i fynychu amrywiaeth o gynadleddau a gweithdai sy'n berthynol i gydraddoldeb ac amrywiaeth er lles datblygiad proffesiynol
- Ymgysylltwyd â Llywodraeth Cymru i ddarparu'r rhaglen Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (TYEMTDAThRh) ar draws y sefydliad.
- Ehangwyd ein hadnoddau e-ddysgu i fynd i'r afael â materion allweddol, h.y. Gweithle Cynhwysol.
- Ail gynlluniwyd ein proses gwerthuso staff i'w wneud yn fwy hygyrch i'r gweithlu. Ein bwriad yw annog gwell tryloywder drwy law ymgysylltiadau amlach a mwy perthnasol.
- Hyrwyddwyd negeseuon cyhoeddus i sicrhau ymwybyddiaeth ymhlith staff e.e. Mis Hanes LHDaTh, Iechyd Meddwl, hyrwyddo ymwybyddiaeth o oedran.
- Cyfranogwyd yn Rhaglen Cynghreiriaid Stonewall

Beth ydym yn bwriadu ei wneud.

- Bwriadwn ddatblygu ein hadnoddau e-ddysgu ymhellach a gwella hygyrchedd i annog cyfranogaeth ehangach.
- Byddwn yn chwilio am gyfleoedd sy'n codi o'n proses "werthuso" i dargedu ein hadnoddau lle cânt yr effaith fwyaf.
- Lansio ein Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb mewnol,

Rheoleiddiadau 11 a 12: Cyflog Cyfartal a Chynlluniau Gweithredu

Yn ogystal, mae gofyniad i ystyried y wybodaeth hon wrth gynllunio amcanion cydraddoldeb. Hefyd, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gyhoeddi cynllun amcan a gweithredu cydraddoldeb mewn perthynas â mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau cyflog rhyw a adnabuwyd neu gyhoeddi'r rhesymau pam na wnaeth hyn.

Mae'r Gwasanaeth yn glynu at gyfarwyddyd a therfynau amser a gynhyrchwyd gan y llywodraeth mewn perthynas ag asesu tâl cyfartal a datblygiad cynllun gweithredu perthnasol

Beth a wnaethom

Cyhoeddwyd ein Polisi Tâl Blynyddol

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

Cyhoeddi gwybodaeth berthnasol yn unol â'r ddeddfwriaeth adrodd am dâl Rhywedd

Rheoleiddiad 13: Adolygu trefniadau

Rheoleiddiad 14: Adrodd blynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol Rhaid adolygu amcanion cydraddoldeb o leiaf bob 4 mlynedd. Hefyd, mae'n ofynnol i awdurdodau gadw agweddau eraill o gydymffurfedd â'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan arolygaeth.

Beth a wnaethom

- Sicrhawyd y bu cyhoeddiad ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol diwethaf gwrdd â'r terfyn amser sy'n ofynnol yn gyfreithiol
- Adeiladu pedwar canlyniad Canlyniadau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Themâu Corfforaethol newydd

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol
- Cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Strategol

Rheoleiddiad 18: Caffael Cyhoeddus

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys i holl gaffaeliadau er gwaethaf gwerth y cytundeb. Mae'r ddyletswydd benodol yn gymwys pan fydd Awdurdod Lleol yn caffael trafodion gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail 'cytundeb perthnasol'

Beth a wnaethom

- Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gwestiynu cyflenwyr drwy ein proses gaffael yn unol ag Arferion, hyfforddiant a chyfleoedd dyrchafu Cyfle Cyfartal a Gwahaniaethol.
- Hysbysebhir pob cyflei i ddarparu mynediad a hyrwyddo cyfleoedd i Fusnesau Bach a Chanolig, busnesau lleol a'r 3^{ydd} Sector. Gosodir Meini Prawf Gwerthuso sy'n sicrhau tegwch i bob cyflenwr sy'n ymateb.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud

- Parhau i adeiladu cydraddoldeb i'r broses gaffael a monitro drwy reoli cytundebau. Byddwn yn cwestiynu cyflenwyr yn ystod y broses gaffael i asesu a chymharu eu perfformiad ar gyflogaeth foisol o fewn y gadwyn gyflenwi.

Data Gwasanaeth


1af o Ebrill 2016 - 31ain o Fawrth 2017

Anafusion:	
Tanau Damweiniol mewn Anheddau:	
Pobl oed 65+	40
Cefndir Lleiafrif Ethnig	1
Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (a fynychwyd gan	
Pobl oed 65+	66
Cefndir Lleiafrif Ethnig	0
<i>*ffynhonnell - System Cofnodi Digwyddiadau (SCD)</i>	
<i>* cleifion gan gynnwys marwolaethau, anafiadau ac</i>	

Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y	
Anabl	4,239
Larymau Mwg a osodwyd	3,692
Pobl oed 65+	7,529
Larymau Mwg a osodwyd	6,879
Cefndir Lleiafrif Ethnig	242
Larymau Mwg a osodwyd	267
Teuluoedd Un Rhiant	815
Larymau Mwg a osodwyd	617
Larymau mwg arbenigol i'r byddar a osodwyd	2,706

Data Staff: Cyffredinol

1af o Ebrill 2016 - 31ain o Fawrth 2017




Staff GTADC	Benywaidd	Gwrywaidd
Cyfansymiau	241	1316
18-25	11	93
26-40	76	514
41-60	147	687
60+	7	22
Datgan eich hunan yn Anabl	3	9
Du (Affricanaidd)	0	1
a Du Caribiaidd	0	1
Cawcasaid (gwyn)	211	1120
Gadawyd yn Wag	22	133
Arall	5	19
Dewis peidio datgan	3	42

Deurywiol, Hoyw, Lesbaidd	12	
Heterorywiol	470	
Dewis peidio datgan	923	
Gadawyd yn Wag	152	
Ailbennu Rhywedd/Hunaniaeth	1	

Data Staff: Pobl sy'n Gadael

1af o Ebrill 2016 - 31ain o Fawrth 2017




	Marw yn y Swydd	Diswyddwyd	Diwedd Cytndeb Dros Dro/Tymor Sefydlog	Ymddiswyddo	Ymddeol	Trosglwyddo i wasanaeth arall
Benywaidd	0	2	2	10	2	0
Gwrywaidd	2	4	0	75	40	1


Benywaidd Gwrywaidd

MAE'R DUDALEN HON YN WAG

Data Staff- Rhyw/Gradd: Corfforaethol 1af o Ebrill 2016 - 31ain o Fawrth 2017



Data Staff- Rhyw/Rôl: Holl Staff Gwisg 1af o Ebrill 2016 - 31ain o Fawrth 2017



Data Recriwtio: Corfforaethol

	CYFANSWM CEISIADAU
BENYWAIDD	387
GWRYWAIDD	236
TRAWSRYWIOL	0
ANHYSBYS/DEWIS PEIDIO DATGAN	0
CYFANSWM:	623
DAN 18	11
18-24	150
25-40	262
41-59	146
60+	23
Anhysbys/Dewis peidio datgan	31
Cofrestrwyd ag Anabledd	12
Heb Gofrestru ag Anabledd	569
Anhysbys/Dewis peidio datgan	42
Lleiafrif Ethnig	18
Gwyn	576
Anhysbys/Dewis peidio datgan	29
Bwdhaidd	1
Cristion	196
Hindŵaidd	0
Iddewig	0
Mwslimaidd	8
Sikh	0
Dim	360
Arall	0
Anhysbys/Dewis peidio datgan	58
Deurywiol	4
Hoyw	2
Heterorywiol	577
Lesbaidd	6
Dewis peidio datgan	34
Ddim yn Siarad Cymraeg	345
Dysgwr	120
Canolradd	37
Rhugl	72
Dewis peidio datgan	49

Data Recriwtio: Llawn Amser

	CYFANSWM CEISIADAU
BENYWAIDD	324
GWRYWAIDD	2635
TRAWSRYWIOL	0
ANHYSBYS/DEWIS PEIDIO DATGAN	19
CYFANSWM:	2978
Cofrestrwyd ag Anabledd	45
Heb Gofrestru ag Anabledd	2904
Dewis peidio datgan	29
Lleiafrif Ethnig	117
Gwyn	2672
Dewis peidio datgan	189
Bwdhaidd	7
Cristion	887
Hindŵaidd	2
Iddewig	5
Mwslimaidd	26
Sikh	0
Dim	1842
Arall	43
Dewis peidio datgan	166
Deurywiol	95
Hoyw	44
Heterorywiol	2621
Lesbaidd	46
Dewis peidio datgan	172
Ddim yn Siarad Cymraeg	2137
Dysgwr	452
Canolradd	122
Rhugl	243
Dewis peidio datgan	24

Data Recriwtio: Ar-Alwad (Yn ôl y Galw)

	CYFANSWM CEISIADAU
BENYWAIDD	22
GWRYWAIDD	222
TRAWSRYWIOL	0
DEWIS PEIDIO DATGAN	20
CYFANSWM:	264
DAN 18	9
18-24	94
25-40	111
41-59	21
60+	0
Dewis peidio datgan	29
Cofrestrwyd ag Anabledd	2
Heb Gofrestru ag Anabledd	233
Dewis peidio datgan	29
Lleiafrif Ethnig	7
Gwyn	229
Dewis peidio datgan	28
Bwdhaidd	0
Cristion	63
Hindŵaidd	0
Iddewig	0
Mwslimaidd	1
Sikh	0
Dim	164
Arall	1
Dewis peidio datgan	35
Deurywiol	1
Hoyw	3
Heterorywiol	220
Lesbaidd	4
Dewis peidio datgan	36
Ddim yn Siarad Cymraeg	189
Dysgwr	20
Canolradd	6
Rhugl	20
Dewis peidio datgan	29

Data Recriwtio: Rheoli Tân

	CYFANSWM CEISIADAU
BENYWAIDD	124
GWRYWAIDD	97
TRAWSRYWIOL	0
ANHYSBYS/DEWIS PEIDIO DATGAN	7
CYFANSWM:	228
DAN 18	
18-24	
25-40	
41-59	
60+	
Anhysbys/Dewis peidio datgan	
Cofrestrwyd ag Anabledd	5
Heb Gofrestru ag Anabledd	207
Anhysbys/Dewis peidio datgan	16
Lleiafrif Ethnig	4
Gwyn	212
Anhysbys/Dewis peidio datgan	12
Bwdhaidd	0
Cristion	99
Hindŵaidd	0
Iddewig	0
Mwslimaidd	0
Sikh	0
Dim	109
Arall	3
Anhysbys/Dewis peidio datgan	17
Deurywiol	5
Hoyw	3
Heterorywiol	195
Lesbaidd	7
Dewis peidio datgan	18
Ddim yn Siarad Cymraeg	139
Dysgwr	41
Canolradd	19
Rhugl	21
Dewis peidio datgan	8

Geirfa

Deddf Cydraddoldeb (2010)

Amnewiodd hyn mwy na 100 darn o ddeddfwriaeth gydag un ddogfen gyfreithiol.

Dyletswydd Gyffredinol

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol sydd â thri maes sylfaenol iddi:

Dileu gwahaniaethu.

Dyrchafu cydraddoldeb cyfle.

Maethu perthnasau da.

Nodweddion Gwarchoddedig

Rhain yw'r nodweddion a adnabuwyd ac a warchodwyd gan Gyfraith rhag cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn neu, fel arall, cael eu trin yn llai nag unrhyw arall, ac sy'n cwmpasu: Oed, Crediniaeth/Anghrediniaeth, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Hil, Rhyw, a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Mewn rhai achosion, mae hyn hefyd yn cynnwys Partneriaethau Sifil/ Priodasau a Beichiogrwydd/Mamolaeth.

Y Dyletswyddau Penodol Cymreig

Nododd Llywodraeth Cymru feysydd penodol sy'n rhaid cydymffurfio â hwy yma yng Nghymru, ac wrth wneud hyn, gall cyrff cyhoeddus megis y Gwasanaeth Tân ac Achub arddangos cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gyffredinol uchod.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)

Datblygir ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda mewnbwn gan staff a chymunedau, ac amlinella sut yr ydym yn cynllunio cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r Dyletswyddau Penodol Cymreig ill dau.

Cynllun Gwella (CG)

Cyhoeddir hwn ar ein gwefan (www.decymru-tan.gov.uk) a dengys sut rydym yn perfformio ar draws ein gwasanaethau, a beth yw'n blaenoriaethau ar gyfer y

flwyddyn i ddod. **Cynllun Lleihau Risg (CLI R)**

Cyhoeddir y cynllun ar ein gwefan (gweler uchod) a dengys ein blaenoriaethau yn ogystal â sut yr ydym yn bwriadu cwrdd â hwy.

Y Ffyrdd Ymlaen

Mae rhai o'r meysydd allweddol byddwn yn tyfu yn cynnwys:

- *Sicrhau* yr hyrwyddir cyfleoedd adrannol i'r staff cyfan
- *Argymell* cydymffurfedd ac arfer orau â'n partneriaid
- *Archwilio ffyrdd* gweithiol o ddefnyddio data i wasanaethu a chwrdd ag anghenion amrywiol ein holl gymunedau'n well
- *Adeiladu* Canlyniadau Cydraddoldeb yn uniongyrchol i'r Agenda Gwella a'r Themâu Strategol
- *Adolygu proses* Asesu Risg Cydraddoldeb fel y medrwn dargedu adnoddau'n well yn yr hyn a wnawn a pham
- *Egluro* ffyrdd newydd arwyddocaol o gynyddu cynrychiolaeth amrywiol mewn darpariaeth staff a'r gwasanaeth ill dau
- *Parhau i* hyrwyddo, dyrchafu, a sefydlu'n well ein cydberthnasau â grwpiau a wthiwyd i'r cyrion yn hanesyddol



SWFireandRescue

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72-8LX. CF72-8LX

e-bost: amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk. www.decymru-tan.gov.uk